

**COFNODION CYNGOR PRIFYSGOL CAERDYDD A GYNHALIWYD DDYDD
LLUN 23 EBRILL 2020 DRWY ZOOM AM 2.00PM**

Yn Bresennol: Yr Athro Stuart Palmer (Cadeirydd), yr Athro Colin Riordan, yr Athro Rudolf Allemann, yr Athro Rachel Ashworth, Paul Baston, Dr Carol Bell, Ricardo Calil, Hannah Doe, Tomos Evans, Judith Fabian, yr Athro Fonesig Janet Finch, yr Athro Kim Graham [o gofnod 1857], Alastair Gibbons, yr Athro Ken Hamilton [o funud 1858], Michael Hampson, Karen Harvey-Cooke, yr Athro Karen Holford, Jan Juillerat, Dr Steven Luke, Dr Joanna Newman [o gofnod 1856], Len Richards [o funud 1868], John Shakeshaft, David Simmons, y Barnwr Ray Singh, Dr Janet Wademan ac Agnes Xavier-Phillips.

Yn bresennol: Katy Dale (Cofnodion), Rashi Jain, Chris Jones, Sue Midha, Claire Morgan, Dr Elid Morris, James Plumb (Cofnodion), Melanie Rimmer, Ruth Robertson, Dr Pretty Sagoo, Claire Sanders, yr Athro Damian Walford Davies, yr Athro Ian Weeks, Dr Huw Williams [cofnod 1868] a Robert Williams..

Ymddiheuriadau: Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1851 CROESO A MATERION RHAGARWEINIOL

NODWYD Y CANLYNOL

- 1851.1 croesawyd Chris Jones a Dr Pretty Sagoo fel arsylwyr i'r cyfarfod, cyn iddynt ddechrau fel aelodau lleyg ar 01 Ionawr 2021;
- 1851.2 croesawyd Dr Elid Morris a Melanie Rimmer hefyd i'r cyfarfod;
- 1851.3 llongyfarchwyd Claire Morgan a Claire Sanders am eu penodiadau sylweddol fel Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr a Phrif Swyddog Gweithredu yn y drefn honno;
- 1851.4 o ystyried faint o fusnes sydd i'w drafod, byddai nifer o eitemau'n cael eu trafod drwy eithriad a gofynnwyd i'r aelodau nodi ar ddechrau'r cyfarfod unrhyw eitemau yn yr adran hon yr oeddent am eu trafod.

1852 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am y cyfarfod. Cadarnhawyd bod gan y cyfarfod gworwm.

**1853 COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR 07 TACHWEDD 2020 A
CHYFARFOD ARBENNIG Y CYNGOR AR 06 IONAWR 2020**

NODWYD Y CANLYNOL

- 1853.1 yn y cofnodion ar gyfer cyfarfod 07 Medi 2020, cynigiwyd y gwelliannau canlynol:
 - .1 o dan cofnod 1836.7 "remined" i gael ei gywiro i "remained";
 - .2 o dan gofnod 1839.9: y gobaith yw bod yr amcanestyniadau'n cynrychioli sefyllfa waethaf ac roedd gan y Brifysgol fantolen gref i fynd i'r afael â hyn pe na bai'r sefyllfa'n gwella; fodd bynnag, nid oedd y sefyllfa bresennol yn gynaliadwy a **mynegodd aelodau'r Cyngor bryder nad oedd yr arbedion targed wedi'u cyflawni**

ac anogodd y weithrediaeth i adolygu'r arbedion cost posibl er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ers y risgiau yn y **flwyddyn o'n blaenau yn ansicr; dylid hefyd gymharu**, y ~~enwedig~~ mewn perthynas â chystadleuwyr wedi'u meincnodi;

- .3 o dan gofnod 1839.10: roedd y Brifysgol wedi ymrwymo i wneud arbedion ond roedd am osgoi toriadau cyflym mewn costau a fyddai'n cyfyngu ar y gallu i dyfu yn y dyfodol a bod unrhyw newidiadau'n gweithio'n academiaidd ac yn ariannol;
cymeradwywyd hyn ac anogwyd arbedion i wrthbwysu'r costau a ysgwyddwyd oherwydd y prosesau a addaswyd a'r gweithdrefnau gweithredol.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 1853.2 cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 07 Chwefror 2020, yn amodol ar y gwelliannau uchod.
- 1853.3 cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 06 Hydref 2020.

1854 MATERION YN CODI

NODWYD Y CANLYNOL

- 1854.1 mewn perthynas â chofnod 1815 (Canlyniadau Arolwg Staff 2019 ac Ymateb y Brifysgol) roedd gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn a byddai diweddariad yn cael ei ddarparu i'r cyfarfod addas nesaf.

1855 DATGAN BUDDIANT

NODWYD Y CANLYNOL

- 1855.1 byddai Dr Carol Bell yn ymuno â Chyngor Ymchwil Lloegr ar ôl iddi gael ei phenodi'n aelod o'r Cyngor;
- 1855.2 byddai'r Is-gadeirydd yn cadeirio ar gyfer cofnod 1866 (Cadeiryddiaeth recriwtio i'r Cyngor) a byddai'r Cadeirydd yn gadael y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

1856 ADRODDIAD Y CADEIRYDD I'R CYNGOR

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/250C, 'Adroddiad y Cadeirydd i'r Cyngor'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 1856.1 cofnodwyd nifer o longyfarchiadau yn y papur;
- 1856.2 cynhaliwyd munud o dawelwch ar gyfer y marwolaethau a nodwyd;
- 1856.3 ymunodd Dr Joanna Newman â'r cyfarfod yn ystod yr eitem hon;
- 1856.4 y panel i adolygu tendrau ar gyfer yr adolygiad effeithiolrwydd y cytunwyd arno ac roedd Cylch Gorchwyl yr adolygiad yn cael ei ddatblygu;
- 1856.5 cynigiwyd i ddilyn yr adolygiad o'r Llys gael ei arwain gan y Parchedig Ganon Gareth Powell a byddai Cylch Gorchwyl yr adolygiad hwn yn cael

ei gymeradwyo gan y Cyngor neu'r Pwyllgor Llywodraethu fel y bo'n briodol.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 1856.6 cytuno y byddai'r Cadeirydd yn cysylltu â'r Parchedig Canon Gareth Powell i drafod adolygiad pellach o'r Lllys.

1857 ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR I'r CYNGOR

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/251C, 'Adroddiad yr Is-Ganghellor i'r Cyngor'. Gwahoddwyd yr Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 1857.1 roedd diweddariad ar iechyd a diogelwch wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, yn unol â chais y Cyngor;
- 1857.2 roedd niferoedd recriwtio myfyrwyr wedi gwella ers cyhoeddi'r adroddiad ac roedd incwm ffioedd dysgu yn iach, gyda tua 56% wedi derbyn ffioedd wedi cael eu hanfonebu; nid oedd yn hysbys eto faint o fyfyrwyr fyddai'n parhau i astudio ac felly roedd angen parhau i fod yn ofalus ar ffigurau incwm terfynol;
- 1857.3 roedd nifer fawr o fyfyrwyr rhyngwladol wedi dod i Gaerdydd ar gyfer eu hastudiaethau, ac roedd hynny'n adlewyrchu eu hawydd i fynychu Prifysgol Caerdydd;
- 1857.4 roedd myfyrwyr o Tsieina yn cyfrif am tua 50% o fyfyrwyr rhyngwladol; roedd hyn yn unol â chymaryddion eraill Grŵp Russell ac roedd y Brifysgol yn ceisio cynyddu recriwtio o wledydd eraill i leihau'r ddibyniaeth hon;
- 1857.5 ymunodd yr Athro Kim Graham â'r cyfarfod yn ystod yr eitem hon;
- 1857.6 roedd y KPI ynghylch hyd lleoliadau rhyngwladol i fyfyrwyr wedi gostwng o 21 i 14 diwrnod; roedd hyn yn rhannol oherwydd y cyfyngiadau ar deithio oherwydd COVID-19 ond roedd hefyd yn cyfateb i gynnig llawer o sefydliadau rhyngwladol; roedd y Brifysgol yn bwriadu cynnal yr amserlen hon tan 2023 ac roedd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o leoliadau rhithwir;
- 1857.7 Llongyfarchodd aelodau'r Cyngor yr Is-Ganghellor ar nifer a gwerth y dyfarniadau ymchwil a enillwyd, gyda diolch arbennig i'r staff ymchwil a'r rhai sy'n eu cefnogi ar y cyflawniad hwn;
- 1857.8 nid yw cyllid strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru wedi'i gadarnhau ar gyfer blynyddoedd dau a thri, oherwydd bod CCAUC yn aros am gadarnhad o'r gyllideb gan Lywodraeth Cymru; yn sgil hyn, roedd contractau blwyddyn yn cael eu dilyn ac roedd y Brifysgol mewn trafodaethau parhaus gyda CCAUC ar yr effaith a gafodd hyn ar nifer ac ansawdd yr ymgeiswyr ar gyfer rolau craidd;
- 1857.9 roedd enillion ariannol posibl yn un o nifer o ystyriaethau ar gyfer partneriaethau strategol piblinell, ond nid dyna oedd prif nod partneriaethau o'r fath.

1858 NEWYDDION DIWEDDARAF AM COVID-19

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/252HC, 'Diweddariad COVID-19'.
Gwahoddwyd yr Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1858.1 [HEPGORWYD]

1858.2 [HEPGORWYD]

1858.3 [HEPGORWYD]

1858.4 [HEPGORWYD]

1858.5 [HEPGORWYD]

1858.6 [HEPGORWYD]

1858.7 [HEPGORWYD]

1858.8 [HEPGORWYD]

**1859 CYNLLUNIAU I SICRHAU SEFYLLFA ADENNILL ARIANNOL YN
2021/22**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/295HC, 'Cynlluniau i Sicrhau Sefyllfa
Adennill Ariannol yn 2021/22'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i
siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1859.1 [HEPGORWYD]

1859.2 [HEPGORWYD]

1859.3 [HEPGORWYD]

1859.4 [HEPGORWYD]

1859.5 [HEPGORWYD]

1859.6 [HEPGORWYD]

1859.7 [HEPGORWYD]

1859.8 [HEPGORWYD]

1859.9 [HEPGORWYD]

1859.10 [HEPGORWYD]

1859.11 [HEPGORWYD]

1859.12 [HEPGORWYD]

1859.13 [HEPGORWYD]

1859.14 [HEPGORWYD]

1859.15 [HEPGORWYD]

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1859.16 cymeradwyo cynllun yr Is-Ganghellor ar gyfer dychwelyd i sefyllfa adennill ariannol yn 2021/22;

1859.17 i'r wybodaeth ddiweddaraf a'r cynllun gweithredu gael eu cyflwyno i gyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror 2021;

1859.18 yn unol ag Ordinhad 10, E, 2.1, dylid dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau i gymeradwyo Cyllideb y Brifysgol yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2020.

1860 ADRODDIAD LLYWYDD UNDEB Y MYFYRWYR

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/253, 'Adroddiad Llywydd Undeb y Myfyrwyr 2019/20'. Gwahoddwyd Llywydd Undeb y Myfyrwyr, i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1860.1 roedd y Gofod Astudio Ôl-raddedig yn adeilad Undeb y Myfyrwyr wedi cael ei droi'n Fannau Grŵp Astudio a Chymdeithas ychwanegol i'w defnyddio gan fyfyrwyr;

1860.2 byddai'r Caffi Astudio sydd newydd ei agor yn cael ei gadw ar agor dros wyliau'r Nadolig i gefnogi myfyrwyr sy'n aros yng Nghaerdydd;

1860.3 [HEPGORWYD]

1860.5 roedd Undeb y Myfyrwyr wedi derbyn £50,000 gan Lywodraeth Cymru i helpu gyda lles myfyrwyr;

1860.6 ar-lein, cynhaliwyd gweithgareddau rhithwir i Lasfyfyrwyr ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd ac roedd cymdeithasau wedi adrodd am fwy o ymgysylltiad nag blynyddoedd blaenorol;

1860.7 cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb fyw gyda'r Is-Ganghellor, y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr, Llywydd Undeb y Myfyrwyr a'r Is-lywydd Addysg, gyda dros 170 o fyfyrwyr yn cyflwyno dros 100 o gwestiynau;

1860.8 mynegodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr ei ddiolch i'r Brifysgol am ymgysylltu a'r rôl oedd gan Undeb y Myfyrwyr wrth wneud penderfyniadau yn ystod yr heriau diweddar.

1861 STRATEGAETH EHANGU CYFRANOGIAD PRIFYSGOL CAERDYDD:

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/287C, 'Strategaeth Ehangu Cyfranogiad'. Gwahoddwyd y Rhag Is-Ganghellor Dros Addysg a Phrofiad Myfyrwyr i siarad am eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 1861.1 rhoddwyd y Strategaeth Ehangu Cyfranogiad flaenorol ar waith yn 2016 a bu newidiadau sylweddol yn y dirwedd reoleiddio, ynghyd ag effaith COVID-19, ers hynny, gan gyflwyno cyfle da i adolygu'r strategaeth;
- 1861.2 roedd y Rhag Is-Ganghellor blaenorol wedi cychwyn strategaeth ddiwygiedig ddrafft; crëwyd grŵp strategaeth i adolygu'r drafft hwn ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i gael adborth;
- 1861.3 roedd y strategaeth ddiwygiedig yn cynnig dull mwy cyfannol a'i nod oedd canolbwyntio ar sicrhau bod myfyrwyr yn llwyddiannus yn ystod eu hamser yn y Brifysgol ac ar ôl cwblhau eu hastudiaethau;
- 1861.4 rhoddodd y strategaeth amlygrwydd i'r bwloch dyfarnu BAME er mwyn sicrhau ei fod yn cael sylw.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 1861.5 cymeradwyo'r Strategaeth Ehangu Cyfranogiad.

1862 TROSOLWG O SGORIAU'R NSS A'R CYNLLUN GWEITHREDU SEFYDLIADOL

Rhoddodd y Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr gyflwyniad ar yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 1862.1 mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfywyr yn cael ei gwblhau bob blwyddyn gan fyfyrwyr israddedig blwyddyn olaf; caiff ei gyhoeddi gan y Swyddfa Myfyrwyr (OFS) ac mae'n berchen iddynt a rhoddir sylw eang i'r canlyniadau yn y wag.
- 1862.2 mae'r canlyniadau'n adlewyrchu enw da ac ansawdd y ddarpariaeth o brifysgolion ac fe'u defnyddir yn aml mewn tablau cynghrair; mae CCAUC hefyd yn ei ddefnyddio fel dangosydd perfformiad allweddol;
- 1862.3 roedd y Brifysgol wedi gosod KPI ar gyfer pob pwnc i fod yn yr 25% uchaf a dim ond mewn tua chwarter o bynciau y cyflawnwyd hyn; ar hyn o bryd roedd y Brifysgol ar safle 103 ar gyfer ansawdd yr addysgu ac ar safle 98 ar gyfer profiad myfyrwyr ac felly roedd CCAUC yn craffu mwy;
- 1862.4 bu gostyngiad o ychydig o dan 3% yn y boddhad cyffredinol eleni; roedd y rhan fwyaf o sefydliadau wedi gweld gostyngiad o 1-2% oherwydd COVID-19 ac roedd gweithredu diwydiannol hefyd wedi effeithio'n wael ar y Brifysgol; yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, roedd boddhad wedi gostwng o 90% i 81%;
- 1862.5 bu gostyngiad hefyd mewn boddhad ym mhob maes thematig yn ystod 2019/20;
- 1862.6 roedd Undeb y Myfyrwyr â safle uwchben y meincnod ond dyma oedd yr unig elfen i wneud hynny, sy'n golygu nad yw'r hyn sy'n cael ei wneud o dan feysydd meincnod yn cael ei wrthbwysu mewn meysydd eraill;
- 1862.7 roedd data ysgolion wedi'u cyfrifo ar sail agregau ac roedd yn ymddangos bod ysgolion llai â hunaniaeth gref ac elfennau ymarferol yn perfformio'n well nag eraill; ysgolion mwy a'r rhai a welodd ostyngiad yn y canlyniadau eleni oedd y rhai y cafodd y gweithredu diwydiannol effaith fawr arnynt;

- 1862.8 [HEPGORWYD]
- 1862.9 [HEPGORWYD]; roedd pob ysgol wedi cynhyrchu cynllun gwella profiad myfyrwyr a oedd yn cael ei fonitro;
- 1862.10 o ystyried y canlyniadau uchod, bu'n rhaid i'r Brifysgol ddarparu cynllun gweithredu sefydliadol a dau gynllun gweithredu pwnc (ar gyfer nyrsio deintyddol a pheirianeg meddalwedd) i CCAUC;
- 1862.11 roedd y cynllun gweithredu sefydliadol yn canolbwyntio ar ddarpariaeth ddigidol, rhaglen newydd o DPP academaidd achrededig, adolygiad o asesiadau a gwell cyfathrebu i fynd i'r afael â'r meysydd allweddol sy'n peri pryder;
- 1862.12 roedd y Brifysgol hefyd yn adolygu ffyrdd o sicrhau bod materion posibl yn cael eu gweld yn gynnar, megis amseru a strwythur gwerthuso modiwlau ac NSS mewnol blynyddol ar gyfer pob blwyddyn;
- 1862.13 roedd yn bwysig cofio'r pwysau sylweddol ar staff i gyflwyno addysgu yn ystod COVID-19 a'r angen i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod hwn;
- 1862.14 roedd bygythiad y byddai gweithredu diwydiannol yn y dyfodol hefyd ac y byddai hynny'n effeithio ar sgoriau;
- 1862.15 roedd yn flwyddyn anodd i gyflawni gwelliannau i sgoriau, ond roedd CCAUC wrthi'n hyrwyddo'r defnydd o'r NSS; roedd yr arolwg yn cael ei adolygu gan yr OFS ond ni ddisgwylid y byddai'n cael ei ddileu;
- 1862.16 roedd y Brifysgol yn benderfynol o fynd i'r afael â'r dirywiad yn y canlyniadau ond atgoffodd aelodau'r Cyngor y byddai'n cymryd amser i weld effaith unrhyw newidiadau;
- 1862.17 roedd y Cyngor yn falch o'r camau a weithredwyd ac roedd yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf.

1863 ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/296C, 'Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu'. Gwahodwyd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu i siarad am eitem hon

NODWYD Y CANLYNOL

- 1863.1 roedd y Pwyllgor wedi cymeradwyo mân ddiwygiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau;
- 1863.2 mewn ymateb i gwestiwn, ni fu unrhyw gynnydd mewn achosion a adroddwyd i'r Swyddog Atal yn sgil gweithio o bell ac roedd dyddiadau ar gyfer hyfforddiant yn cael eu trafod.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 1863.3 cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu;
- 1863.4 cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau;

- 1863.5 Derbyniwyd papur 20/262 'Datganiad Blynyddol ar Onestrwydd Ymchwil'.
- 1863.6 cymeradwyo papur 20/263C, Ffurflen Monitro Statudol Dyletswydd Prevent 2019- 2020;
- 1863.7 cymeradwyo papur 20/264, Datganiad y Brifysgol ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl;
- 1863.8 cymeradwyo papur 20/265C, Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol)1986: Adroddiad Cydymffurfiaeth 2019/20.
- 1863.9 cymeradwyo papur 20/266HC, yr Adroddiad Cwynion: Myfyrwyr, Staff A Thrydydd Partïon 2019/2020;
- 1863.10 cymeradwyo papur 20/299, Aelodaeth Lleyg y Cyngor a'i Bwyllgorau;
- 1863.11 cymeradwyo papur 20/267, Cytundeb Perthynas Undeb y Myfyrwyr a Siarter y Myfyrwyr;
- 1863.12 cymeradwyo papur 20/268, Gweithredu Dogfennau (Sêl).

1864 ARGYMHELLIAD POWELL - AELODAETH O'R CYNGOR

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/254C, 'Adolygiad Powell o Aelodaeth y Cyngor'. Gwahoddwyd Is-gadeirydd y Cyngor i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 1864.1 roedd y papur yn cynnig aelodaeth wedi'i diweddarau o'r Cyngor ac roedd y newidiadau arfaethedig wedi cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu;
- 1864.2 roedd y cynigion yn cyd-fynd ag argymhellion Siarter Llywodraethu'r Adolygiad Camm a Siarter Prifysgolion yng Nghymru;
- 1864.3 nod yr aelodaeth arfaethedig oedd cynnal amrywiaeth o safbwyntiau ond atgoffwyd y Cyngor y ceisiwyd ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy fecanweithiau eraill;
- 1864.4 nod y diwygiadau i'r categori staff academiaidd oedd sicrhau amrywiaeth o safbwyntiau o bob rhan o'r colegau; nid oedd y broses ar gyfer enwebu'r categori hwn wedi'i chadarnhau eto.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 1864.5 cymeradwyo aelodaeth ddiwygiedig y Cyngor.

1865 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM NEWIDIADAU STATUD I'R CYFRIN GYNGOR

Rhoddodd Ysgrifennydd y Brifysgol ddiweddariad ar lafar am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 1865.1 gwnaed cais rhagarweiniol i'r Cyfrin Gyngor ym mis Medi 2020 i ganiatáu ar gyfer ceisiadau mewnol ac allanol am rôl Cadeirydd;

- 1865.2 roedd CCAUC wedi bod mewn cysylltiad i gadarnhau eu bod wedi cael gwybod gan Lywodraeth Cymru am y newid arfaethedig;
- 1865.3 roedd y Cyfrin Gyngor yn disgwyl edrych ar y cais ym mis Rhagfyr 2020 ond gallai hyn gael ei ohirio oherwydd ffactorau allanol.

1866 CADEIRIO'R CYNGOR - RECRIWTIO

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ddiweddariad ar lafar ar yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 1866.1 gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod a chymerodd yr Is-gadeirydd rôl y Cadeirydd;
- 1866.2 oherwydd yr oedi posibl o ran cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor, cynigiwyd bod y Cadeirydd presennol yn parhau yn ei swydd tan fis Ionawr 2022; mae hyn yn dal i ddod o fewn tymor presennol y Cadeirydd, a oedd am gyfnod o hyd at bedair blynedd hyd at fis Gorffennaf 2023.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 1866.3 cymeradwyo bod y Cadeirydd yn aros yn ei swydd tan fis Ionawr 2022 i ganiatáu digon o amser i geisio cael rhywun arall.

1867 SIARTER LLYWODRAETHU UIW AC YMRWYMIAD I WEITHREDU

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/255, 'Siarter Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru ac Ymrwymiad i Weithredu'. Gwahoddwyd Ruth Robertson, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 1867.1 roedd y papur yn manylu ar Siarter Prifysgolion yng Nghymru a'r ymrwymiad cysylltiedig i'r ddogfen weithredu yr oedd y Brifysgol wedi'i mabwysiadu ac roedd yn ofynnol iddo adrodd ar gynnydd i CCAUC;
- 1867.2 gofynnwyd i'r Cyngor gytuno ar yr ymateb arfaethedig fel sail i gynllun gweithredu'r Brifysgol;
- 1867.3 roedd y cynigion yn gyson â materion a drafodwyd yn y pwyllgor Archwilio a Risg yn ymwneud ag adolygiad allanol o ddiwylliant ac ymgymryd ag ymarfer hyfywedd.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 1867.4 cymeradwyo'r ymatebion arfaethedig fel sail ar gyfer cynllun gweithredu Ymrwymiad i Weithredu'r Siarter Llywodraethu.

1868 STRATEGAETH Y GYMRAEG 2020-21

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/256, 'Strategaeth y Gymraeg'. Gwahoddwyd Rhag Is-Ganghellor Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol a Deon Iaith Gymraeg y Brifysgol i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 1868.1 ymunodd Len Richards a Dr Huw Williams â'r cyfarfod;
- 1868.2 roedd y papur yn cynnig Campws Iaith Gymraeg a oedd yn ymestyn y tu hwnt i'r ystâd ffisegol ac yn anelu at ymgorffori hunaniaeth Gymraeg, ac osgoi gwneud dim ond yr hyn a oedd yn ofynnol ar gyfer cydymffurfio;
- 1868.3 roedd y strategaeth wedi'i seilio ar arferion da a gwybodaeth ymarferol staff a myfyrwyr;
- 1868.4 roedd Comisiynydd y Gymraeg a'r Coleg Cymraeg yn ymwybodol o'r strategaeth arfaethedig;
- 1868.5 byddai lansiad meddal, os caiff ei gymeradwyo, yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2021.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 1867.6 cymeradwyo strategaeth y Gymraeg

1869 CYLCH GORCHWYL PANEL CYNGHORI CYLLIDWYR

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/257, 'Panel Cyngori Cyllidwyr - Cylch Gorchwyl'. Gwahoddwyd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu i siarad am eitem hon

NODWYD Y CANLYNOL

- 1869.1 roedd creu corff Cyngori cyllidwyr wedi cael ei argymhell yn Adolygiad Powell.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 1869.2 cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Panel Cyngori Cyllidwyr;
- 1869.3 cymeradwyo penodiad y Parchedig Ganon Gareth Powell yn Gadeirydd cyntaf y Panel;
- 1869.4 cymeradwyo'r Cadeirydd cyntaf i nodi rhestr hir o aelodau mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Cyngor, yr Is-Ganghellor, y Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Cynfyfyrwyr, a'r Cyfarwyddwr Ymchwil ac Arloesi.

1870 ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/297C, 'Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg'. Gwahoddwyd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 1870.1 roedd y Pwyllgor wedi cynnal cyfarfod arbennig ar 28 Hydref 2020 lle'r oedd wedi cytuno â'r archwilwyr bod y Brifysgol yn fusnes hyfyw;
- 1870.2 byddai'r Pwyllgor yn adolygu gweithdrefnau a pholisïau seiberddiogelwch y Brifysgol yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2021;

1870.3 byddai'r Pwyllgor yn cynnal sesiwn ar ddeall a chynghori ar strategaeth mapio risg a sicrwydd ym mis Ionawr 2021, gydag elfennau'n cael eu hwyluso gan y Gymdeithas Rheoli Risg.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1870.4 cymeradwyo papur 20/269C, Adroddiad Rheoli Risg Blynyddol 2019/2020;

1870.5 cymeradwyo papur 20/270C, y Gofrestr Risgiau;

1870.6 cymeradwyo papur 20/271, y Siarter Archwilio Mewnol wedi'i diweddarau;

1870.7 cymeradwyo papur 20/272C, Adroddiad Blynyddol 2019/2020 – Twyll, Llwgwrwbrwyo a Chydymffurfiaeth Ariannol arall;

1870.8 cymeradwyo papur 20/273, yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2019/2020;

1870.9 cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 20/274.

1871 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO I'R CYNGOR

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/298C, 'Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg'. Gwahoddwyd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1871.1 mae'r adroddiad yn ofyniad rheoleiddio a'i ddiben yw rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar reoli risg, rheoli a llywodraethu, gwerth am arian a rheoli a sicrhau ansawdd data;

1871.2 mynegwyd pryderon ynghylch gwerth am arian, llywodraethu a rheoli risg prosiect CIC a chaffael cyfalaf; cymerwyd camau adfer helaeth yn y meysydd hyn;

1871.3 o'r 21 adroddiad a gwblhawyd y llynedd, dychwelodd saith sicrwydd cyfyngedig, gan adlewyrchu bod rhai meysydd i'w datblygu o hyd; roedd y Pwyllgor yn falch o'r cynnydd a wnaed o ran gwella'r meysydd hyn;

1871.4 bwriad y Brifysgol oedd dechrau chwilio am rai i gymryd lle'r archwilwyr allanol presennol yn ystod 2021;

1871.5 parhaodd y Pwyllgor i weithio gyda'r rheolwyr i sicrhau bod camau gweithredu o adroddiadau archwilio yn cael eu cau yn brydlon.

1872 LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/290C, 'Llythyr Cynrychiolaeth'. Gwahoddwyd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i siarad am yr eitem hon.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1872.1 cymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth er mwyn iddo gael ei lofnodi a'i gyflwyno i archwilwyr allanol y Brifysgol.

**1873 ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR CYLLID AC
ADNODDAU**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/288C 'Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau i'r Cyngor'. Gwahoddwyd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 1873.1 nid oedd y gyllideb ar gyfer 20/21 wedi cael ei chyflwyno eto iddo gael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor o ystyried yr amrywiadau parhaus yn nifer y myfyrwyr; felly cynigiwyd dod â'r gyllideb i gyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2020 i gael ei chymeradwyo, ar ôl i'r Cyngor ddirprwyo awdurdod i wneud hynny yn y cyfarfod hwn;
- 1873.2 roedd yr Is-bwyllgor Ystadau a Seilwaith wedi rhoi sylwadau ar Achos Busnes Llanrhymni a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth arfaethedig; roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r prosiect;
- 1873.3 roedd yr Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio wedi cael briffiad yn ddiweddar gan Rothschild ar y farchnad fondiau a'r posibilrwydd o dap bondiau; byddai hyn yn cael ei ddefnyddio er mwyn buddsoddi yn safle'r Mynydd Bychan a'r seilwaith digidol; Roedd CCAUC wedi cael gwybod am y trafodaethau ac roeddent yn gefnogol mewn egwyddor; byddai cynnig pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror 2021 pe bai'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau o'r farn ei fod yn gam gweithredu priodol.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 1873.4 cymeradwyo papur 20/275C, Adroddiad Rheoli Blynyddol y Trysorlys ar gyfer 2019/20;
- 1873.5 cymeradwyo papur 20/276C, Achos Busnes Llanrhymni, sef cymeradwyaeth i'r Brifysgol ymrwymo i gytundeb â Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd a Chyngor Dinas Caerdydd, ac awdurdodi Phil Rees-Jones (ar ran y Brifysgol) i ymrwymo i drefniadau prydlesu yn seiliedig ar y Memorandwm Cytundeb;
- 1873.6 cymeradwyo gwaith pellach ar dap bondiau posibl a chynnig i'w gyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Chwefror.

1874 RHAGLEN BUDDSODDI CYFALAF A CHYNLLUN ACHOS BUSNES

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/258C, 'Diweddariad ar y Cynllun Buddsoddi Cyfalaf'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 1874.1 roedd y papur yn adlewyrchu effaith COVID-19 ar y cynllun buddsoddi cyfalaf, gyda dim ond contractau presennol yn cael eu datblygu; roedd pob prosiect arall yn parhau i gael ei ohirio ac ni chafodd cynigion prosiect pellach eu hannog.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1874.2 cymeradwyo y telir cyllid ar gyfer gofynion ychwanegol Campws Arloesedd Caerdydd a phrosiectau Ehangu Pensaernïaeth o gronfeydd bondiau.

1875 ADRODDIAD ARIANNOL

Derbyniwyd a nodwyd papur 20/291C, 'Adroddiad Ariannol'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon.

1876 BUSNES HYFYW

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/292C, 'Busnes Hyfyw'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1876.1 paratowyd y papur hwn yn seiliedig ar amcanestyniadau ariannol hydref 2020; roedd y rhagfynegiadau presennol yn dangos gwell sefyllfa;

1876.2 roedd yn ofynnol cynhyrchu cyfrifon blynyddol ar egwyddor busnes hyfyw (h.y. mae'n rhaid i'r Brifysgol ddangos y gall gyflawni ei hymrwymyiadau am 12 mis ar ôl llofnodi'r cyfrifon);

1876.3 byddai'n debygol y byddai angen adolygu hyn eto ar gyfer cyfrifon blynyddol 2020/21.

1877 ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL 2019/2020

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/293C, 'Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1877.1 cafodd Adroddiad Blynyddol ei argraffu mewn du a gwyn i leihau costau cynhyrchu ac argraffu;

1877.2 cafodd adran sy'n manylu ar ymateb y Brifysgol i argyfwng COVID-19 ei chynnwys;

1877.3 roedd statws credyd y Brifysgol wedi gostwng un raddfa ac roedd hyn yn bennaf oherwydd bod sgôr Llywodraeth y DU hefyd yn gostwng un raddfa;

1877.4 tynnwyd sylw at yr adran sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Cyngor;

1877.5 ar gyfer 2019/20 adroddodd y Brifysgol warged weithredol o £14.1m; mae hyn yn adlewyrchu'r addasiad o £55m ar gyfer darpariaeth pensiwn USS y mae'n rhaid ei dangos fel rhan o weithgareddau gweithredu

1877.6 gofynnwyd i'r Cyngor sicrhau eu bod yn fodlon â'r Trafodion Partïon Cysylltiedig a restrwyd.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1877.7 cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2019/20;

1887.8 i'r Dirprwy Is-Ganghellor gadarnhau dyddiad addas i Ddeon Cynaliadwyedd Amgylcheddol fynychu'r Cyngor a rhoi briffiad.

1878 CYLLIDEB ARIANNOL DDRAFFT 2020-21 AC AMCANESTYNIADAU ARIANNOL 2021-23

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/294C, 'Cyllideb Ariannol Ddrafft 2020-21 ac Amcanestyniadau Ariannol 2021-23'. Gwahoddwyd y Prif Swyddog Ariannol i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1878.1 byddai'r papur hwn yn cael ei ddiweddarau a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ym mis Rhagfyr 2020 i'w gymeradwyo.

1879 DIWEDDARIAD ARIANNOL CIC

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/259C, 'Diweddariad ar Gampws Arloesedd Caerdydd'. Gwahoddwyd y Dirprwy Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1879.1 mae'r papur yn gofyn am gael tynnu i lawr o'r gyllideb wrth gefn ar gyfer dau ddigwyddiad iawndal; cytunwyd ar y cyntaf ar £1.29m ac amcangyfrifir bod yr ail (ar gyfer Medi 2020 i Fawrth 2021) yn £1.4m; gofynnir am gymeradwyaeth ar gyfer y ddau gan fod angen setlo'r ail ddigwyddiad y mis hwn;

1879.2 roedd fformat yr adroddiadau ariannol yn yr adroddiad wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu argymhellion adroddiad ARUP;

1879.3 y dyddiad cwblhau amcangyfrifedig cyfredol yw 11 Chwefror 2022;

1879.4 ystyriodd Cadeiryddion y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Is-bwyllgor Ystadau a Seilwaith fod y prosiect bellach yn cael ei reoli'n dda ac yn gwerthfawrogi'r fformat adrodd wedi'i ddiweddarau.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

1879.5 cymeradwyo'r cais am dynnu £3.084m i lawr ar gyfer digwyddiadau iawndal gwirioneddol cyfnod 1 a'r digwyddiadau iawndal amcangyfrifedig cyfnod 2 mewn perthynas â COVID-19.

1880 ADRODDIAD Y SENEDD I'R CYNGOR

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/260C, 'Anfon Adroddiad i'r Cyngor'. Gwahoddwyd yr Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

1880.1 roedd yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol yn ofyniad rheoliadol i CCAUC ac yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar ansawdd y graddau a ddyfarnwyd;

- 1880.2 roedd ymweliad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn rhan o'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol ac roedd wedi bod yn gadarnhaol iawn ond amlygwyd dwy eitem fel risgiau coch:
- .1 profiad y myfyriwr, fel yr adlewyrchir yng nghanlyniadau'r NSS;
 - .2 achosion myfyrwyr a'r adnoddau sydd eu hangen i reoli'r broses hon; roedd cynllun wedi'i roi ar waith ond roedd yn cymryd amser i recriwtio;
- 1880.3 bu cynnydd bach mewn graddau da o 5%, a oedd yn unol â sector y DU; disgwyliad hyn o ystyried yr ymwybyddiaeth o amgylchiadau esgusodol o dan yr amgylchiadau presennol ac nid oedd unrhyw bryderon gan arholwyr allanol am hyn;
- 1880.4 gallai trafodaeth ar ganlyniadau graddau mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol fod o fudd.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 1880.5 cymeradwyo papur 20/277, y Datganiad Canlyniadau Gradd;
- 1880.6 cymeradwyo papur 20/278, yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol;
- 1880.7 cymeradwyo papur 20/279C, yr Adroddiad gan y Pwyllgor Dyrchafiadau Academaidd.

1881 UNRHYW FUSNES ARALL

NODWYD Y CANLYNOL

- 1881.1 penodi Emma Douglas yn Ymddiriedolwr Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd; cynghorwyd aelodau llewg fod swydd wag arall i ymddiriedolwyr o hyd ar y pwyllgor hwn a chroesawyd enwebiadau;
- 1881.2 estynnwyd diolch i Dr Carol Bell ac Alastair Gibbons am eu hymrwymiad i'r Cyngor a'i bwyllgorau yn ystod eu cyfnod yn eu swyddi.

1882 EITEMAU A DDERBYNIWYD ER GWYBODAETH

NODODD y Cyngor
 Papur 20/280, 'Cyfansoddiad ac Aelodaeth y Cyngor'
 Papur 20/281 Seilio Trafodion
 Papur 20/282C, 'Adroddiad gan y Pwyllgor Dileu Swyddi i'r Cyngor'
 Papur 20/283C, 'Adroddiad Blynyddol ar Reoli Pobl'
 Papur 20/284HC, 'Papur Adolygu URI'
 Derbyniwyd papur 20/285 Grantiau a Chontractau Ymchwil
 Papur 20/286C Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf

Cadeirydd.....
 ...

DYDDIAD